| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **2 MAWRTH, 2017** |
| **PWNC** | **PAPUR GWYN – LLYWODRAETH LEOL – CADERNID AC ADNEWYDDIAD** |
| **AWDUR(ON)** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards (Arweinydd y Cyngor)** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno sylwadau drafft mewn ymateb i'r Papur Gwyn** |

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Gwyn sydd yn amlinellu rhai cynigion i ddiwygio llywodraeth leol. Mae hyn yn rhannol yn sgil ymgynghori a fu tua 18 mis yn ôl ar gynigion a oedd yn cynnwys, ar y pryd, ad-drefnu llywodraeth leol trwy uno cynghorau. Mae'r Papur Gwyn yn adeiladu ar ddatganiad gan y Gweinidog yn Hydref 2016 yn argymell cryfhau gweithio'n rhanbarthol yn hytrach na threfn o uno gorfodol i awdurdodau lleol fel yr awgrymwyd yn 2015.

2. Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno sylwadau ar y papur yn hynod anffodus o gofio amserlen yr adroddiad gan mai dyddiad cau yr ymgynghoriad yw 11 Ebrill 2017, dyddiad sydd ar ganol Cyfnod yr Etholiad.

3. Er mwyn ceisio sicrhau mewnbwn aelodau i farn y Cyngor, trefnwyd 5 o weithdai i geisio barn aelodau ar wahanol elfennau o'r Papur Gwyn gyda'r nod o gynnwys y farn hynny yn y sylwadau sydd gerbron y Cyngor heddiw. Daeth 25 o aelodau i'r gweithdai hynny.

4. Yn y gweithdai, amlinellwyd rhai o brif gynigion y Papur Gwyn a gwahoddwyd barn a sylwadau aelodau ar y prif gynigion hynny. Yn amlwg, nid oedd unfrydedd barn yn y cyfarfodydd hynny ond mae'r adroddiad hwn yn ymdrech i grynhoi'r prif bwyntiau lle roedd consensws a nodi'r prif sylwadau ar yr elfennau gwahanol.

5. Un agwedd sylfaenol i'w nodi yw fod ehangu meysydd cydweithio rhanbarthol am resymau effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd yn briodol wrth gwrs. Fodd bynnag, os yw hynny yn gwanhau atebolrwydd, yna nid llywodraeth leol fel y gwelir nawr sydd gennym ond llywodraeth ranbarthol. Mae'r Papur Gwyn fel pe'n awgrymu y gellir cael y ddau ond rhaid gofyn a yw hynny yn wir o ystyried rhai o'r dulliau llywodraethu arfaethedig a nodir yn y ddogfen.

6. Mae'r gweddill o'r ddogfen felly yn cynnig sylwadau drafft mewn ymateb i brif gynigion a chwestiynau'r papur fydd yn sail i ymateb gan y Cyngor. Fe'u cyflwynir isod I'r Cyngor eu derbyn neu eu haddasu.

| **6.1 Profion Gweithio'n Rhanbarthol** |
|---|
| **Cynnig** - Mae'r Papur Gwyn yn pwysleisio na ddylid gweithio'n rhanbarthol "os nad dyna fyddai'r ffordd orau o weithio." Mae'r Llywodraeth wedi datblygu cyfres o 'brofion' allai helpu wrth ystyried ydy gweithio'n rhanbarthol yn addas ai peidio |
| **Sylwadau drafft** – Yn gyffredinol, croesewir y datganiad "na ddylid gweithio'n rhanbarthol os nad dyna fyddai'r ffordd orau o weithio" ond y cwestiwn pwysig yw pwy sy'n penderfynu hynny yn y pen draw. Hynny yw gallai rhywbeth fod yn well ar gyfer y rhanbarth ond yn waeth ar gyfer ardal cyngor unigol.<br>O ran y profion eu hunain, maent yn niferus a chymhleth ac, mae'n debyg, yn dir ffrwythlon ar gyfer anghytuno. Efallai bod lle i symleiddio a gofyn os yw'r cynnig yn |

mynd i arwain at wasanaeth sydd yn fwy effeithlon ac effeithiol, a yw yn debyg o gynyddu biwrocratiaeth ac yn olaf a yw yn gwanio atebolrwydd.
Mae dau fater sydd ar goll o'r profion sef y dylai bod y gwasanaethau a'r penderfyniadau yn eu cylch yn atebol a bod modd darparu'r gwasanaethau a fyddai'n cael eu rhanbartholi trwy gyfrwng y Gymraeg.
Awgrym arall fyddai llunio'r profion fel clwydi y mae'n rhaid eu croesi – Os mai na yw'r ateb i'r profion neu'r cwestiynau hynny, yna ni ddylid cydweithio.

| **6.2 Yr Ardal Cydweithio** |
| --- |
| **Cynnig** – Mae'r Llywodraeth yn cynnig 4 opsiwn posib ar gyfer ôl-troed rhanbarthol ar gyfer cydweithio yn amrywio o Lywodraeth Cymru yn pennu'r ardal a'r gwasanaethau i ystyried pob achos yn unigol. |
| **Sylwadau drafft** – Y sylw cyffredinol ar hyn yw os yw'r Llywodraeth o ddifri' am ddefnyddio profion ar gyfer unrhyw gydweithio, bod rhagdybio ardaloedd cydweithio ac yn wir y meysydd (gweler 5.3 isod) yn gynamserol.<br>Er bod peth amrywiaeth barn ar hyn, roedd y mwyafrif a fynegodd barn o blaid trafod fesul gwasanaeth a fesul achos gan bod rhagdybio ateb cyffredinol sydd yn addas i bob Gwasanaeth yn gibddall.<br>Pwynt pwysig arall yma yw bod y ddogfen yn son am gydweithio rhanbarthol yn unig pan, mewn gwirionedd y byddai cydweithio is-ranbarthol (Gwynedd a Mon, neu Gwynedd, Mon a Chonwy) yn debygol o weithio'n well. Dylai cynigion terfynol y Llywodraeth adael lle ar gyfer hyn. |

| **6.3 Meysydd Gwasanaeth ar gyfer cydweithio** |
| --- |
| **Cynnig** – Mae'r Llywodraeth yn nodi 6 maes gwasanaeth y dylid eu darparu yn rhanbarthol a 3 lle y gellir gwneud hynny. |
| **Sylwadau drafft** – Fel y nodwyd uchod, os yw'r Llywodraeth o ddifri' am ddefnyddio profion ar gyfer unrhyw gydweithio, mae rhagdybio meysydd Gwasanaeth ar gyfer cydweithio yn gynamserol. Yn sicr mae dweud y "dylid" rhanbartholi rhai gwasanaethau cyn edrych arnynt yn drwyadl yn ffôl a dweud y lleiaf.<br>Fodd bynnag, yn amodol ar hynny, cynigir y sylwadau hyn fesul maes gwasanaeth:-<br><u>Datblygu Economaidd</u> – Roedd barn y mwyafrif yn gweld hwn fel gwasanaeth y gellir gwneud elfennau yn well ar lefel Gogledd Cymru gan adeiladu, o bosib ar waith y Bwrdd Uchelgais ar faterion strategol a denu mwy o arian i ddatblygu'r economi. Ond roedd pryderon y byddai ardaloedd gwledig fel Gwynedd yn medru colli allan o dan drefniant o'r fath o ran cefnogi busnesau bychan a thwristiaeth. Yn sicr, byddai'n rhaid sicrhau bod cydnabyddiaeth i bwysigrwydd yr Iaith Gymraeg ac i bwysigrwydd economiau gwledig i gynnal ein cymunedau<br><u>Cynllunio Defnydd Tir a Rheoli Adeiladu</u> – Roedd mwyafrif clir yn erbyn hwn gan bod angen adnabyddiaeth o ardal leol ar gyfer y maes hwn ac ofn y byddai gweithredu ar draws rhanbarth yn colli hynny ac y byddai model is-ranbarthol Gwynedd a Môn yn well.<br><u>Gwasanaethau Cymdeithasol</u> - Roedd mwyafrif clir yn erbyn hwn achos pwysigrwydd adnabyddiaeth o ardal leol a hefyd y byddai symud i redeg gwasanaethau dros ardal fwy yn golygu mwy o amser di-gynnyrch i reolwyr yn teithio i gyfarfodydd a mwy o weithredu drwy pwyllgorau yn hytrach na thrwy ystyried beth sy'n gweithio ar lefel y berthynas gyda'r unigolyn. Nid oes tystiolaeth y byddai gweithio yn rhanbarthol yn arwain at ganlyniadau gwell. Ar ben hynny, mae angen atebolrwydd yn glir a chadarn ac |

| |
|---|
| mae'n debyg y byddai rhanbartholi yn cymhlethu'r sefyllfa. Nid yw'n addas ranbartholi popeth i'r un graddfa a'n profiad yw fod pethau yn gweithio yn fwy effeithiol ac yn cynnig gwell gwasanaeth ar raddfa is-ranbarthol, Gwynedd a Môn. Byddai cynnig newidiadau pellach tu hwnt i beth sydd eisoes ar y gweill yn gynamserol ac iddo'r potensial amlwg i fod yn niweidiol i wasanaethau a'r pobl fregus sydd yn eu defnyddio. Mae yna Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i oruchwilio a chynghori y partneriaid ar ffyrdd amgen a gwell o gyflawni; dyna'r llwybr i gyflawni newidiadau.<br>Gwella Addysg – Roedd y farn ar hwn yn rhanedig. Yn amlwg, mae GwE yn gweithio ar draws y Gogledd yn barod er bod peth pryderon am hynny ond roedd manteision ehangach o barhau efo'r model hynny os oes sicrwydd am ansawdd y ddarpariaeth i'r awdurdodau addysg lleol a sicrwydd am y ddarpariaeth iaith Gymraeg. Mae adroddiadau diweddar a gyhoeddwyd yn codi pryderon ynglyn â chael dau gorff yn gyfrifol am Addysg Bellach yng Ngogledd Cymru (yr Awdurdod Lleol a GwE) a diffyg eglurder am atebolrwydd oherwydd hynny. Mae hwn yn faes lle y gellir ystyried cydweithio gyda chynghorau cyfagos yn hytrach nag ar draws y cyfan o'r Gogledd.<br>Anghenion Dysgu Ychwanegol – Roedd y mwyafrif a fynegodd farn bendant yn anghtuno ar hyn oherwydd bod siroedd ac ardaloedd llai yn unigryw er bod peth parodrwydd i gydweithio, lle mae hynny'n gwneud synnwyr o fewn ardaloedd is-ranbarthol llai, fel Gwynedd a Mon.<br>Amddiffyn y Cyhoedd – Roedd mwyafrif clir yn gweld peth synnwyr yn yr awgrym hwn gan bod y safonau y mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio iddynt a'u gorfodi yn debyg ar draws y Gogledd a bod canfod arbenigedd mewn rhai meysydd yn anodd. Fodd bynnag, roedd pryder y gallai olygu amser di-gynnyrch i reolwyr yn teithio i gyfarfodydd dros ardal fwy<br>Tai – Roedd barn eglur a phendant na ddylid rhanbartholi hwn gan bod natur y farchnad dai a gofynion ardaloedd cynghorau unigol mor wahanol<br>Diogelwch Cymunedol a Chyfiawnder Ieuenctid – Mae rhai pethau yn y maes eisoes yn gweithredu ar sail rhanbarthol a nid yw'n glir pa fudd fyddai i ranbartholi ymhellach gan bod y patrymau presennol yn effeithiol a'n bod yn cwrdd â gofynion lleol ein trigolion, o ran iaith a diwylliant mewn ardal wledig iawn.<br>Gwastraff – Roedd cytundeb bod y gweithio rhanbarthol sydd eisoes yn y maes yn cynnig templed ar gyfer y dyfodol er mwyn cael cysondeb gweithredu gyda rhai elfennau ond bod angen deall anghenion lleol o fewn hynny. |

| **6.4 Gwasanaeth Swyddfa Gefn** |
|---|
| **Cynnig** – Mae'r Llywodraeth yn cynnig Gwasanaethau Swyddfa Gefn megis cyllid, cyfreithiol, archwilio mewnol, rheoli asedau, y Gymraeg fel rhai y gellid eu darparu yn Rhanbarthol. |
| **Sylwadau drafft** – Er bod rhai yn gweld peth rhesymeg y tu ôl i'r cynigion mewn rhai meysydd, roedd y mwyafrif yn anghytuno yn bennaf oherwydd pryderon am y gallu i ddarparu'r gwasanaethau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg a'r effaith ar gyflogaeth leol mewn ardaloedd sydd yn ddibynnol iawn ar y sector gyhoeddus. |

| **6.5 Llywodraethu Rhanbarthol** |
|---|
| **Cynnig** – Mae'r Llywodraeth yn cynnig sefydlu **Pwyllgorau Llywodraethu ar y Cyd** i oruchwylio gwasanaeth rhanbarthol dan arweiniad yr aelodau cabinet perthnasol. Opsiwn arall yr Awdurdodau Cyfun. |

| |
|---|
| **Sylwadau drafft** – Mae'r dewisiadau sydd yn cael eu cynnig yn y maes hwn yn amlygu gwendid sylfaenol y model cydweithio, sef ei fod yn mynd i gymhlethu llywodraethu gan greu haen arall a'i wneud yn anoddach fyth i sefydlu atebolrwydd dros wasanaethau. Roedd anfodlonrwydd clir ynglyn â'r opsiynau o'r Pwyllgorau Llywodraethu ar y Cyd a'r Awdurdod Cyfun oherwydd hyn. Ond, roedd un aelod yn dadlau y dylid cael un corff i reoli os am weithredu'n rhanbarthol. |

| **6.6 Ariannu Trefniadau Rhanbarthol** |
|---|
| **Cynnig** – Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylid datblygu **fframwaith cyllidol gorfodol** er mwyn sicrhau bod gwariant pob Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn cael ei ddiwallu drwy gyfuno cyfraniadau oddi wrth yr awdurdodau lleol sy'n rhan ohono |
| **Sylwadau drafft** – Tra bod y syniad fel pe'n ddeniadol ar yr olwg gyntaf o ran lleihau dadlau a thrafod ar feysydd gwasanaeth unigol, o edrych arno yn ddyfnach, mae pryderon mawr ynghylch hwn a beth fyddai'r sail ar gyfer y fframwaith cyllido hynny. Pe byddai yn cael ei sefydlu, byddai'n rhaid ei deilwrio ac mae anfodlonrwydd hefyd ynglyn â'r elfen gorfodol o unrhyw fframwaith. Adnabuwyd risg hefyd o gyllid yn mynd lle mae'r angen mwyaf gan esgeuluso ardaloedd eraill. |

| **6.7 Uno Gwirfoddol** |
|---|
| **Cynnig** - Mae'r Llywodraeth yn parhau i gefnogi uno gwirfoddol rhwng awdurdodau ac yn cynnig cymorth i wneud hynny. |
| **Sylwadau drafft** – Dro yn ôl, mynegodd y Cyngor hwn yn ei barodrwydd i ystyried uno gyda chynghorau cyfagos pe byddai modd dangos bod hynny o fudd i bobl Gwynedd. Mae safbwynt y Cyngor ar hynny yn parhau a byddem yn cefnogi'r ddarpariaeth i gynghorau fedru uno'n wirfoddol. |

| **6.8 Arweinyddiaeth Leol** |
|---|
| **Cynnig** - Mae'r Llywodraeth yn nodi'r angen i adeiladu ar y parch a'r ymddiriedaeth sydd rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru. |
| **Sylwadau drafft** – Yn amlwg, mae perthynas dda rhwng llywodraeth leol a llywodraeth ganolig yn bwysig ac mae ymddiriedaeth gan y nail at y llall yn bwysig. Mae'r Cyngor o'r farn nad yw'n gweld yr ymddiriedaeth hynny o du Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd a byddai'n croesawu unrhyw welliant o ran hynny. |

| **6.9 Pwer Cymhwysedd Cyffredinol** |
|---|
| **Cynnig** - Mae'r Llywodraeth yn cynnig roi **Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol** i awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i weithio'n fwy arloesol a hyblyg. |
| **Sylwadau drafft** – Mae'r Cyngor ac awdurdodau lleol eraill wedi bod yn pwyso am hyn ers blynyddoedd. Byddem yn croesawu hyn yn fawr iawn ond, yn amlwg, mae angen gwaith manwl i sicrhau bod y newid arfaethedig yn gwireddu'r addewid a ddim yn arwain at gymlethdodau cyfreithiol pellach. |

| **6.10 Rol Cynghorwyr** |
|---|
| **Cynnig** - Mae'r Llywodraeth yn cynnig amryw o bethau ar faterion mor amrywiol â safonau ymddygiad, darlledu cyfarfodydd, ymgysylltu lleol a phwyllgorau ardal. |
| **Sylwadau drafft** – Mae peth aniddigwrydd bod y Llywodraeth yn gweld yr angen i |

| |
|---|
| ddweud wrth gynghorau a chynghorwyr sut y maent i wneud eu gwaith ond, o ran y pwyntiau a godwyd, mae'r mwyafrif ohonynt yn syniadau da ond ni ddylid eu gorfodi. Mae'n gwbl briodol i Lywodraeth osod safonau yn y maes ond dylid gadael cynghorau a chynghorwyr unigol i wneud y penderfyniadau a bod yn atebol amdanynt. Cwestiynwyd hefyd a fyddai symud i fodel rhanbarthol yn ei gwneud hi'n anoddach ymgysylltu efo'r cyhoedd. |

| **6.11 Trefn Bwyllgorau** |
|---|
| **Cynnig** - Mae'r Llywodraeth yn cynnig yr opsiwn o ganiatáu trefn bwyllgor yn hytrach na model arweinydd a chabinet mewn llywodraeth leol |
| **Sylwadau drafft** – Tra mae gwahaniaeth barn ynglyn â'r drefn bresennol gyda rhai yn ffafrio'r System Gabinet a Chraffu fel un mwy effeithiol ac atebol ac eraill yn ei weld yn llai agored a chynhwysol, roedd barn bendant o blaid rhoi'r dewis i gynghorau ddewis eu trefniadau eu hunain |

| **6.12 Cynghorau Cymuned** |
|---|
| **Cynnig** - Mae'r Llywodraeth yn cynnig amryw o bethau ar faterion mor amrywiol â pwerau cynghorau cymuned, gwella'r berthynas â chynghorau sir, clystyru cynghorau, hyfforddiant a phwêr cymhwysedd. |
| **Sylwadau drafft** – Mae perthynas y Cyngor gyda chynghorau cymuned yr ardal yn eithriadol o bwysig, yn arbennig wrth edrych ar gyd-ddarparu gwasanaethau i'r dyfodol a byddai'r Cyngor yn croesawu gweithio efo cynghorau cymuned er eu galluogi i ddatblygu a chlystyru ar sail enghreifftiau lleol llwyddiannus. Fodd bynnag, nid wrth orfodi dogfennau a safonau ar gynghorau cymuned y mae gwneud hynny. |

| **6.13 Etholiadau a Phleidleisio** |
|---|
| **Cynnig** - Mae'r Llywodraeth yn cynnig amryw o bethau fel pleidleisio electronaidd, cofrestru electronaidd a lleoliadau a dyddiadau pleidleidio gwahanol, yn ogystal â rhoi pleidlais i bobl ifanc 16 oed a throsodd a chaniatau i awdurdodau lleol ddewis eu system bleidleisio. |
| **Sylwadau drafft** – Mae cryn amheuaeth am rai o'r cynigion hyn gyda phryderon am dwyll efo cofrestru a phelidleisio electronaidd. Byddai'r Cyngor yn croesawu rhoi'r bleidlais i rai o 16 oed ond, yn gyffredinol teimlir y dylid cael yr un system bleidleisio i lywodraeth leol yn ei gyfanrwydd a hwnnw'n un sydd yn addas ar gyfer sefyllfa lle mae cyfran sylweddol o ymgeiswyr yn rhai annibynnol sydd ddim yn perthyn i bleidiau. |

| **6.14 Ymgeiswyr Etholiad** |
|---|
| **Cynnig** - Mae'r Llywodraeth yn cynnig bod yn rhaid i ymgeiswyr ddatgan os ydyn nhw'n aelod o blaid arbennig, y dylai ymgeiswyr gyhoeddi datganiadau etholiadol ar wefan ganolog a gwahardd aelodau cynulliad rhag sefyll. |
| **Sylwadau drafft** – Cytunir y dylai ymgeiswyr ddatgan os ydynt yn perthyn i bleidiau a hefyd yn wir i gyrff eraill ac y dylid gwahardd Aelodau cynulliad rhag sefyll fel cynghorwyr. |

| **6.15 Gofynion y Llywodraeth** |
|---|
| **Cynnig** - Mae'r Llywodraeth yn cynnig lleihau'r nifer o gynlluniau a strategaethau y |

| |
|---|
| maent yn eu mynnu ond y byddant yn pennu rhai safonau gwasanaeth gofynnol ar lefel genedlaethol. |
| **Sylwadau drafft** – Croesewir y bwriad i leihau'r baich o ran y nifer o gynlluniau a strategaethau y mae'r Llywodraeth yn gofyn amdanynt. Fodd bynnag, ni chroesweir y cynnig bod y Llywodraeth yn pennu rhai safonau. Dylai cynghorau unigol bennu'r safonau hynny ar sail eu hadnabyddiaeth o'u cymunedau a bod yn atebol am hynny. |

| **6.16 Awdurdodau Tân ac Achub** |
|---|
| **Cynnig** - Mae'r Llywodraeth yn cynnig newid trefniadau Awdurdodau Tân ac Achub fel bod eu cyllidebau yn cael eu pennu trwy gytundeb. |
| **Sylwadau drafft** – Byddai'r Cyngor yn croesawu unrhyw newid sy'n sicrhau mwy o ddylanwad dros benderfyniadau trethiannol yr Awdurdod Tân ac Achub. |

| **6.17 Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** |
|---|
| **Cynnig** – Yr unig gwestiwn ar Fyrddau Gwasanaethau y mae'r Llywodraeth yn ei godi yn y ddogfen yw a ddylid caniatau i fyrddau ardaloedd sydd wedi uno i ddad-uno |
| **Sylwadau drafft** – Cytunir y dylid cael modd o ddad-uno byrddau sydd wedi uno ond yn bwysicach, gwneir y sylw mai ychydig iawn o bwyslais sydd yn y Papur Gwyn ar y cyrff statudol pwysig hyn. Onid yw'r byrddau hyn yn flociau adeiladu pwysig ar gyfer trafod a chyd-drefnu gwasanaethau pwysig i drigolion yn lle patrwm rhanbarthol mawr? |

7. Gwahoddir y Cyngor i ystyried ac addasu'r sylwadau uchod, fel bo'n briodol, fel sail i ymateb gan y Cyngor i'r Papur Gwyn